View in English

# Y Gymdeithas **Tirweddau Cenedlaethol**
## Disgrifiad o'r Rôl

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Swyddog Ymgysylltu – Prosiect Cysylltiadau Tirwedd Gŵyr |
| **Cyflog** | £34,225 pro rata |
| **Oriau ac amodau** | Cyfnod penodol, 16 mis<br>Rhan-amser neu amser llawn yn agored i drafodaeth |
| **Lleoliad** | Gweithio gartref gan deithio'n rheolaidd ar draws ardal Gŵyr ac Abertawe |
| **Yn atebol i** | Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol/Swyddog Datblygu Gŵyr |

**Cysylltiadau allweddol**
Cymdeithas Gŵyr
Tîm y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol
Ysgolion, grwpiau ieuenctid, a sefydliadau cymunedol lleol
Sefydliadau partner (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Abertawe, elusennau cadwraeth)
Gwirfoddolwyr a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn Abertawe

**Pwy rydym yn ei geisio**
Rydym yn chwilio am rywun sy'n frwd ynghylch cysylltu pobl â natur a threftadaeth. A chithau'n Swyddog Ymgysylltu, byddwch yn arwain elfennau prosiect Cysylltiadau Tirwedd Gŵyr ar gyfer y cyhoedd – gan ysbrydoli cymunedau lleol i archwilio a deall Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr a gofalu amdano'n weithredol. Bydd gennych brofiad o addysg amgylcheddol, allgymorth, neu ymgysylltu â'r gymuned a byddwch yn mwynhau llunio a chyflwyno gweithgareddau creadigol a chynhwysol. Bydd eich rôl yn helpu i sicrhau bod Gŵyr yn hygyrch ac yn ystyrlon i bawb, yn enwedig pobl ifanc a chymunedau nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn mannau amgylcheddol yn y gorffennol.

Dyma gyfle cyffrous i ddylanwadu ar sut mae pobl yn cysylltu â thirwedd sy'n bwysig yn genedlaethol, ar yr un pryd â helpu i osod y sylfeini ar gyfer adfer natur yn yr hirdymor ar draws y rhanbarth.

**Diben**
Mae prosiect Cysylltiadau Tirwedd Gŵyr yn fenter cam datblygu a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, wrth baratoi cynnig ar gyfer prosiect adfer natur ar raddfa fawr. Ei nod yw creu cynlluniau adfer cynefin manwl, y gellir buddsoddi ynddynt, ar yr un pryd â

ffurfio perthynas gryfach a mwy cynhwysol rhwng pobl a lle. Bydd y Swyddog Ymgysylltu'n arwain yr holl weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan helpu i gyflawni rhaglenni allgymorth, addysg, a gwirfoddolwyr y prosiect. Bydd yn sicrhau bod lleisiau cymunedol yn cael eu clywed, bod rhwystrau rhag mynediad yn cael eu lleihau, a bod pobl yn cael cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at y prosiect a dyfodol Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr.

**Prif gyfrifoldebau**

- Llunio a chyflwyno gweithdai addysgol a gweithgareddau ymgysylltu creadigol, hygyrch i ysgolion, grwpiau cymunedol, a gwirfoddolwyr.
- Datblygu deunyddiau ac adnoddau allgymorth dwyieithog i esbonio nodau'r prosiect a gwerth cynefinoedd Gŵyr.
- Arwain gwaith ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn Abertawe, gan gynnwys pobl ifanc a chymunedau sydd dan anfantais economaidd.
- Datblygu a rheoli rhaglen gwirfoddolwyr hyblyg sy'n cefnogi adfer natur, gwyddoniaeth dinasyddion, a monitro cynefinoedd.
- Cynrychioli'r prosiect mewn digwyddiadau cyhoeddus, yn y cyfryngau, ac ar-lein – gan helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a diddordeb.
- Cydweithio â thîm y prosiect, Cymdeithas Gŵyr, a sefydliadau partner i gysoni negeseuon a sicrhau cyfranogiad cynhwysol.
- Monitro a gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, gan gasglu gwybodaeth am ddysgu, cyrhaeddiad, ac effaith i fwydo i adroddiadau ar y prosiect a chynllunio etifeddol.

**Manyleb yr unigolyn**

Rydym yn chwilio am rywun sy'n wirioneddol frwdfrydig ynghylch cysylltu pobl â natur a threftadaeth – rhywun sy'n deall bod ffurfio perthnasoedd yr un mor bwysig â chyflwyno gweithgareddau. Byddwch yn rhywun sy'n ffynnu mewn lleoliadau cymunedol, sy'n gyfforddus yn arwain gweithdy un diwrnod a sgwrsio â phreswylwyr mewn digwyddiad lleol y nesaf. Byddwch yn deall pwysigrwydd cynhwysiant, ac yn awyddus i sicrhau bod pobl nad ydynt fel arfer yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn prosiectau amgylcheddol yn teimlo bod croeso iddynt, a'u bod yn cael eu clywed a'u hysbrydoli i gymryd rhan. Byddwch yn dangos eich bod yn deall amcanion Prosiect Cysylltiadau Tirwedd Gŵyr, yn uniaethu â nhw ac y byddwch yn ymrwymo iddynt.

Byddwch yn greadigol, yn rhagweithiol, ac yn hyderus wrth droi syniadau'n weithredoedd – boed hynny'n dylunio offeryn ymgysylltu newydd, cynorthwyo gwirfoddolwyr yn y maes, neu gydgynhyrchu gweithgareddau gyda phartneriaid lleol. Yn ddelfrydol, bydd gennych brofiad o weithio gydag ysgolion, grwpiau ieuenctid, neu sefydliadau cymunedol, a byddwch yn gallu addasu'ch arddull i weddu i wahanol gynulleidfaoedd. Er nad oes angen i chi fod yn ecolegydd, bydd gennych wir ddiddordeb yn y byd naturiol ac ymrwymiad i helpu pobl i ddeall pam mae adfer cynefinoedd a gwarchod tirweddau fel Gŵyr yn bwysig – nid yn unig i fyd natur, ond i bobl hefyd.

**Hanfodol**

1. Profiad o addysg amgylcheddol, ymgysylltu â'r cyhoedd, neu allgymorth cymunedol.
2. Gallu profedig i ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol a'u hysbrydoli, yn enwedig cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd wedi'u hymyleiddio.
3. Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, a'r gallu i addasu'r dôn a'r arddull i wahanol grwpiau.
4. Hanes blaenorol o lunio a chyflwyno digwyddiadau, gweithgareddau neu ddeunyddiau dysgu cynhwysol a chreadigol.
5. Dealltwriaeth gref o werth natur, treftadaeth, a mynediad i'r awyr agored.
6. Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar y cyd mewn tîm bach.
7. Sgiliau trefnu a rheoli amser da, a'r gallu i reoli nifer o dasgau a blaenoriaethau.

Os bydd llawer o geisiadau, cynhelir sifft gychwynnol ar sail y ddau faen prawf hanfodol cyntaf.

**Dymunol**

- Sgiliau Cymraeg (llafar a/neu ysgrifenedig).
- Gwybodaeth am Dirwedd Cenedlaethol Gŵyr a'i arwyddocâd ecolegol a diwylliannol.
- Profiad o weithio gyda phobl ifanc, ysgolion, neu fentrau a arweinir gan ieuenctid.
- Profiad o gydlynu gwirfoddolwyr neu brosiectau cymunedol.
- Cynefindra ag offer ymgysylltu digidol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau rhithwir.

**Y Broses Ddethol**

Mae'r Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol yn gyflogwr Cyfle Cyfartal. Mae hyn yn golygu, wrth wneud ein gwaith a chyflogi staff i ymgymryd â'r gwaith hwn, byddwn yn ceisio sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin yn gydradd, ni waeth am ethnigrwydd, rhywedd, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, na statws economaidd.

Ystyrir secondiadau o sefydliadau partner neu gysylltiedig, neu drwy drefniant ymgynghoriaeth.

Mae'r Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol yn frwd ynghylch buddsoddi mewn cynyddu doniau ei staff a'r Teulu Tirweddau Cenedlaethol ehangach. Byddwn yn arfarnu ceisiadau yn erbyn y meini prawf Hanfodol a Dymunol ar gyfer y swydd hon.

**Sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**

Bydd y wybodaeth a gasglwn gennych yn ystod y broses recriwtio a dethol yn cael ei chadw a'i phrosesu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Sylwer, wrth wneud cais am gyflogaeth, eich bod hefyd yn cytuno i'r Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol brosesu'r fath wybodaeth ag a allai fod yn angenrheidiol i asesu'ch cais, ar yr amod y rhoddir sylw priodol i'r egwyddorion diogelu data sydd mewn grym.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw a bydd yn ffurfio rhan o'ch ffeil bersonél. Os na chynigir gwaith i chi gyda'r Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol, bydd yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'ch cais yn cael eu dinistrio'n gyfrinachol fel arfer ar ôl cyfnod o chwe mis.

**National Landscapes** Association
**Role Description**

| | |
|---|---|
| **Title** | Gower Landscape Connections Engagement Officer |
| **Salary** | £34,225 pro rata |
| **Hours and conditions** | Fixed-term, 16 months<br>Part-time or full-time negotiable |
| **Location** | Homeworking with regular travel across the Gower and Swansea area |
| **Responsible to** | Chief Executive National Landscapes Association<br>& Gower Landscape Connections Development Officer |

**Key contacts**
Gower Society
National Landscapes Association team
Local schools, youth groups, and community organisations
Partner organisations (e.g. NRW, Swansea Council, conservation charities)
Volunteers and underrepresented communities in Swansea

**Who we are seeking**
We are looking for someone passionate about connecting people with nature and heritage. As Engagement Officer, you'll lead the public-facing elements of the Gower Landscape Connections project - inspiring local communities to explore, understand, and actively care for the Gower National Landscape. You'll have experience in environmental education, outreach, or community engagement and will enjoy designing and delivering creative and inclusive activities. Your role will help ensure that the Gower is accessible and meaningful to all, particularly to young people and communities that have historically been underrepresented in environmental spaces.

This is an exciting opportunity to shape how people connect with a nationally important landscape, while helping to lay the foundations for long-term nature recovery across the region.

**Purpose**
The Gower Landscape Connections project is a development phase initiative funded by the National Lottery Heritage Fund, preparing a bid for a large-scale nature recovery project. It aims to create detailed, investable habitat restoration plans while also building a stronger, more inclusive relationship between people and place. The Engagement Officer will lead all public engagement activities, supporting the delivery of the project's outreach, education, and volunteer programmes. They will ensure that community voices are heard, barriers to

access are reduced, and that people are given meaningful opportunities to contribute to the project and to the future of the Gower National Landscape.

**Main responsibilities**

- Design and deliver creative, accessible educational workshops and engagement activities for schools, community groups, and volunteers.
- Develop bilingual outreach materials and resources to explain the project's goals and the value of the Gower's habitats.
- Lead engagement with underrepresented groups in Swansea, including young people and economically disadvantaged communities.
- Build and manage a flexible volunteer programme supporting nature recovery, citizen science, and habitat monitoring.
- Represent the project at public events, in the media, and online - helping to raise awareness and build interest.
- Collaborate with the project team, Gower Society, and partner organisations to align messages and ensure inclusive participation.
- Monitor and evaluate engagement activity, capturing learning, reach, and impact to feed into project reporting and legacy planning.

**Person specification**

We're looking for someone who is genuinely passionate about connecting people with nature and heritage - someone who understands that building relationships is just as important as delivering activities. You'll be someone who thrives in community settings, comfortable leading a workshop one day and chatting with residents at a local event the next. You'll understand the importance of inclusion, and you'll be motivated to ensure that people who don't usually see themselves reflected in environmental projects feel welcomed, heard, and inspired to get involved. You'll demonstrate that you understand, identify with and will commit to the objectives of the Gower Landscape Connections Project.

You'll be creative, proactive, and confident in turning ideas into action - whether that's designing a new engagement tool, supporting volunteers in the field, or co-producing activities with local partners. Ideally, you'll bring experience of working with schools, youth groups, or community organisations, and you'll be able to adapt your style to suit different audiences. While you don't need to be an ecologist, you'll have a real interest in the natural world and a commitment to helping people understand why restoring habitats and protecting landscapes like the Gower matters - not just for nature, but for people too.

**Essential**

1. Experience in environmental education, public engagement, or community outreach.
2. Proven ability to engage and inspire diverse audiences, particularly underrepresented or marginalised communities.
3. Excellent communication skills, both written and verbal, with the ability to adapt tone and style for different groups.
4. A track record of designing and delivering inclusive and creative events, activities or learning materials.
5. A strong understanding of the value of nature, heritage, and access to the outdoors.
6. Ability to work both independently and collaboratively within a small team.

7. Good organisational and time management skills, with the ability to manage multiple tasks and priorities.

Should there be a high level of applications there will be an initial sift on the first two essential criteria.

## Desirable

- Welsh language skills (spoken and/or written).
- Knowledge of the Gower National Landscape and its ecological and cultural significance.
- Experience of working with young people, schools, or youth-led initiatives.
- Experience of coordinating volunteers or community projects.
- Familiarity with digital engagement tools, including social media and virtual platforms.

## Selection Process

National Landscapes Association is an Equal Opportunities employer. This means that when carrying out our work and in the employment of staff to undertake this work, we will seek to ensure equality of treatment for all persons regardless of ethnicity, gender, age, marital status, disability, religion, sexual orientation, or economic status.

Secondments from partner or related organisations, or via a consultancy arrangement will be considered.

National Landscapes Association is passionate about investing in growing the talent of its staff and the wider National Landscapes family. We will appraise applications against the Essential and Desirable criteria for this post.

## How we use your personal information

The information which we gather from you during the recruitment and selection process is retained and processed in accordance with the General Data Protection Regulation (GDPR).

Please note that by applying for employment, you are also agreeing to the National Landscapes Association processing such information as may be necessary to assess your application, provided that proper regard is had to the data protection principles in force.

If your application is successful, the information you provide will be retained and will form part of your personnel file. If you are not offered work with the National Landscapes Association, all documentation related to your application will normally be confidentially destroyed after a period of six months.